



Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**

# Grwpiau ymarferwyr: hierarchaeth

Hierarchaeth grwpiau ymarferwyr safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol.

Cyhoeddwyd gyntaf: 28 Hydref 2022

Diweddariad olaf: 2 Hydref 2023

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o [gofalcymdeithasol.cymru](https://gofalcymdeithasol.cymru) ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol/safonau-diogelu-grwpiau-ymarferwyr-hierarchaeth> am y fersiwn diweddaraf.

Hierarchaeth grwpiau ymarferwyr safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol.

Grwpiau ymarferwyr: hierarchaeth

**Bydd unrhyw hyfforddiant, dysgu a datblygu a wneir mewn grŵp uwch yn golygu nad oes angen adnewyddu hyfforddiant, dysgu a datblygu yn y grwpiau oddi tano.**

## **Grŵp F (arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus)**

Angen cwblhau grŵp A – hyfforddiant, dysgu a datblygu ymwybyddiaeth sylfaenol a phwrpasol perthnasol, megis rhianta corfforaethol, ond gellir galw arnynt i drafod materion/roblemau yn grwpiau A i E.

## **Grŵp E (arweinydd sector / ymgynghoriaeth)**

- Arweinwyr strategol
- Penderfynwyr

## **Grŵp D (arbenigwr)**

- Rolau sydd â chyfrifoldebau diogelu plant a/neu oedolion penodol, fel arweinwyr diogelu a gweithwyr proffesiynol a enwir.

## **Grŵp C (lefel uwch)**

- Ymarferwyr cofrestredig neu reoleiddiedig gyda rôl asesu, cynllunio, ymyrryd a gwerthuso. Bydd ganddynt rôl cynllunio diogelu glir (mynychu grŵp craidd, cynhadledd achos, cyfarfod strategaeth) a swyddogaeth statudol.

Bydd y trydydd sector yn sicrhau bod rolau anstatudol perthnasol yn cael hyfforddiant ar y lefel hon hefyd.

## **Grŵp B (canolradd)**

- Pob ymarferydd sy'n cael cysylltiad rheolaidd ag oedolion, plant ac aelodau'r cyhoedd yn eu rôl. Mae hyn yn cynnwys ymarferwyr cofrestredig neu anghofrestredig neu reoleiddiedig neu anrheoleiddiedig a gwirfoddolwyr.

## **Grŵp A (ymwybyddiaeth sylfaenol)**

- Pob aelod o staff sy'n gweithio ym maes: gofal cymdeithasol, gofal iechyd, adrannau awdurdodau lleol, addysg, y blynyddoedd cynnar, y trydydd sector a'r sector gwirfoddol (gwirfoddolwyr â thâl neu ddi-dâl) a chontractwyr annibynnol (gwasanaethau wedi'u comisiynu).